

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-
NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD AR NOS FAWRTH 21AIN O FAI 2019 YN YSGOL
PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Philip Williams (Cadeirydd), Arwel Davies, Stanley Williams, Bari Evans, Iwan Jones, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Elfed Williams, Hywel Davies a Geraint Jones.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 29ain o Ebrill 2019 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

- A. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gyfraniad y Cyngor at Gronfa Mynwent Capel Saron.
- B. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio ol-weithredol am newid defnydd rhan o adeilad amaethyddol a llawr caled cysylltiedig i Weithdy Mecanyddol ar gyfer Busnes Chwaraeon Modur/Car Clasurol Arbenigol yn Hen Sied, Llanrhaeadr.
- C. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod Cais cynllunio tystysgrif datblygiad cyfreithion bresennol ar gyfer newid defnydd rhan o adeilad i'r annedd sengl yn Apartment Hen Sied, Llanrhaeadr.
- D. Mae Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb ynglŷn ar faterion y ffyrdd gan Gyngor Sir Ddinbych.

5. SEDD WAG Y CYNGOR.

Derbyniwyd adroddiad Swyddog Etholiadau Cyngor Sir Ddinbych nad mae'r etholwyr y Gymuned wedi gofyn am isetholiad i lenwi'r sedd wag ar y Cyngor. Mi fydd y Cyngor yn cyfethol aelod i lenwi'r sedd wag ar y Cyngor ac mi fydd y Clerc yn hysbysebu'r sedd wag.

6. WEFAN Y CYNGOR.

Derbyniwyd adroddiad y Clerc fod cwmni Doodle IT o Graigfechan wedi adenyddu'r "Domain" a'r "Hosting" Wefan y Cyngor am £150.00:-

<https://www.llanrhaeadryngnghinmeirch.org>

Mae'r cwmni Doodle IT wedi cynnig hyfforddiant i'r aelodau'r Cyngor.

7. CYLLID.

- A. Datganiad Banc £13,754.00.
- B. Doodle IT am gostau'r Wefan y Cyngor £150.00.
- C. Arwyddwyd y Cadeirydd a'r Clerc cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2019.

8. CAIS CYNLLUNIO.

Newid defnydd tir drwy osod carafán statig i ddarparu llety preswyl mewn cysylltiad â hwsmonaeth anifeiliaid yn "The Paddock", Saron. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais ar y sail:-

- A: Ni does yna ddigon o dir amaethyddol i ddarparu llety preswyl ar y safle.
- B. Mae yna ormod o anifeiliaid yn y maes bychan sydd yn golygu pryder iechyd a diogelwch i'r anifeiliaid.
- C. Nid mae'r mynediad i'r safle yn addas.

9. GOHEBIAETH.

- A. Derbyniwyd gwybodaeth fod yna dentiad yn dal yn bodoli ar safle (Caer Mynydd Caravan Park” yn Saron. Mae’r Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych eisoes wedi eu hysbysu.
- B. Mae Cyngor sir Ddinbych wedi trefnu “Sesiynau Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad” ar ddydd Mawrth 11 Mehefin yn Caledfryn, Dinbych am 4 p.m. a dydd Mawrth 19 Mehefin yn Neuadd y Sir, Rhuthun am 2 p.m.
- C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

10. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd yr aelodau i’r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

- A: Problem baw cwn yn Saron werth safle “Caer Mynydd Carafan Park” yn Saron.
- B. Problem baw cwn ar stad Pont-y-Bedol yn Llanrhaeadr.
- C. Cyflwr gwael y ffordd heibio Plas Capten rhwng Peniel a Dinbych.
- D. Cyflwr gwael y ffordd heibio Meifod yn Saron.

11. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 24ain o Fehefin 2019 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 p.m.